# RECORDERS' NEWSLETTER

**Cylchlythyr y Cofnodwyr 40 (Chwefror 2020)**

Blwyddyn Newydd Dda hwyr i chi, a diolch am yr holl gofnodion yn 2019. Rydyn ni'n gobeithio llunio cylchlythyron byrrach yn fwy aml o hyn ymlaen.

## Rheoli Blodau Gwyllt

Eleni, yn rhan o'n dyletswydd bioamrywiaeth, mae Cyngor RhCT yn lansio menter glaswelltir blodau gwyllt fawr ledled y Fwrdeistref Sirol. Trwy ddefnyddio peiriannau 'torri a chasglu' arbennig, bydd tua 70 hectar (70 cae rygbi) o flodau gwyllt a glaswelltiroedd eraill yn cael eu rheoli'n ddoldiroedd gwair llawn blodau gwyllt. Mae casglu'r glaswellt wedi'i dorri yn hanfodol ar gyfer rheoli blodau gwyllt. Dyma ran anodd y broses, ac mae angen y peiriannau iawn arnoch chi i wneud hynny. Bydd tua 50 hectar arall o gynefin yn cael ei gadw trwy bori (ar y lefelau isel iawn o bori, mae gwartheg a cheffylau yn rheoli glaswelltir bioamrywiaeth yn berffaith). Rydyn ni o'r farn bod cynifer â 120 hectar o gynefinoedd blodau gwyllt wedi'u rheoli ar dir y Cyngor yr haf yma. Dyma rywbeth rydyn ni'n llawn cyffro amdano a bydden ni'n ddiolchgar iawn am unrhyw adroddiadau, cofnodion neu sylwadau am reoli blodau gwyllt yn yr ardaloedd rydych chi'n byw neu'n cofnodi ynddyn nhw. Bydd y fenter â manylion am ble a beth sy'n cael ei reoli yn cael ei lansio yn y Gwanwyn gyda dolen i wefan RhCT, gobeithio. Byddwn ni'n eich cadw chi'n effro i unrhyw ddiweddariadau.

Un o'r mentrau rydyn ni'n bwriadu ei datblygu yn 2020 yw sesiynau rhacanu ('grab a rake'). Mewn ardaloedd lle does dim modd i ni ddefnyddio 'peiriannau torri a chasglu' o ganlyniad i serthrwydd llethrau neu goed. Yr unig ffordd o gasglu glaswellt wedi'i dorri yw rhacanu â llaw. Y sesiwn racanu gyntaf yw ymyl wrth Brynsadler (Pont-y-clun) lle, ym mis Medi, treuliodd gwirfoddolwyr o grŵp amgylcheddol Pont-y-clun awr neu ddwy yn rhacanu glaswellt o ymyl sydd â channoedd o **degeirianau brych** ac ambell i **degeirian bera**. Roedd y Cyngor wedi defnyddio peiriant torri glaswellt â llaw (strimmer) y diwrnod blaenorol, a chafodd y 49 o fagiau eu casglu gan y Cyngor (casgliadau gwyrdd). Rydyn ni'n gobeithio datblygu nifer o safleoedd i gynnal sesiynau rhacanu yn 2020. Mae'n gam gweithredu gwych i'r gymuned. Mae modd i sesiynau gyflwyno'r mesurau rheoli sydd eu hangen ar gyfer canlyniadau blodau gwyllt gwych. Cewch chi hefyd roi cynnig arni yn eich gerddi!

## Partneriaethau Natur Lleol (PNLl) a chyflwyno Rose

Rhywbeth cyffrous arall yw canolbwynt newydd Partneriaethau Natur Lleol, sy'n adeiladu ar y partneriaethau Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol hirsefydlog

(rydych chi, er syndod o bosibl, yn rhan ohonyn nhw trwy ddarllen a chyfrannu at y cylchlythyr yma – gobeithio does dim ots gyda chi....). Rose Revera yw ein cydlynydd Prosiectau Natur Lleol a dyma Rose i esbonio, '*Bwriad Prosiectau Natur Lleol (PNLl), wedi'u hariannu gan Lywodraeth Cymru, yw cynyddu gallu partneriaethau ledled Cymru trwy gefnogi partneriaethau lleol o ran eu swyddogaethau. Mae'r prosiect yn caniatáu i bob Awdurdod Lleol a Pharc Cenedlaethol yng Nghymru gyflogi Cydlynydd PNLl i helpu'r bartneriaeth i ddatblygu a chynnal gweithgareddau yn yr ardal. Bwriad rhai o amcanion y prosiect yw caniatáu camau gweithredu tuag at hwyluso cynllun gweithredu adfer natur o ganlyniad i fod yn aelod o'r PNLl, cefnogi gweithgareddau ymarferol, cynnal achlysuron i dynnu sylw at natur yn y rhanbarth a helpu i gydlynu gwaith adolygu cynllun gweithredu adfer natur leol.*

*Fy enw i yw Rose Revera a fi yw'r Cydlynydd PNLl newydd ar gyfer Castell-nedd Port Talbot a Rhondda Cynon Taf. Hyd yn hyn yn RhCT, rydw i wedi bod yn brysur yn dod i adnabod yr ardal a gwneud gweithgareddau megis ymweld ag ysgolion i roi cyngor ynghylch bioamrywiaeth gyda Richard a gwaith clirio prysgoed yng Ngors y Pant. Rydw i'n adnabod nifer o bobl o'm swydd flaenorol gydag Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru ac rydw i'n edrych ymlaen at gwrdd ag eraill o'r Partneriaethau Natur Leol dros y misoedd nesaf.*

*Yn ffodus, mae gan ardal RhCT Bartneriaeth Natur Leol a thrwy'r prosiect, mae bellach gyda ni gyllideb fach bob chwarter ar gyfer camau gweithredu sy'n seiliedig ar natur. Does dim amodau ar y gyllideb yma ac eithrio eu bod nhw o fudd i natur, ac rydyn ni'n falch o glywed hynny! Dyma enghreifftiau o brosiectau allai gael eu hariannu: bocsys adar/ystlumod ar gyfer safleoedd, deunydd ymgysylltu, arolygon neu offer i gwblhau gwaith ymarferol. I ddechrau, rydyn ni'n llunio rhestr o offer allai fod o dan feddiant a chael eu defnyddio gan y PNLl, megis synhwyrydd ystlumod, ysbienddrychau a chamera. Rhowch wybod os oes gyda chi unrhyw syniadau ar gyfer prosiectau neu offer allai fod o gymorth i'r PNLl.*

Unrhyw ymholiadau, cysylltwch â fi trwy e-bostio r.revera@npt.gov.uk.

**Tywydd**

Doedden ni ddim wedi crynhoi canlyniadau tywydd 2018 yn y cylchlythyr diwethaf. Er gwaethaf yr haf poeth hir yn 2018, disgrifiodd Mark Evans y glaw o'i ardd yng Nghwm-bach fel '*fairly average year, precipitation-wise. The summer rainfall was below average and the autumn was above, so it all evened out, as it usually does'*. Gan edrych ar grynodeb siartiau bar ardderchog o 1994 hyd at heddiw, mae'r canlynol yn dod i'r amlwg. Roedd y gwanwyn yn 2018 a 2019 yn fwy gwlyb na'r cyfartaledd, roedd yr haf yn 2018 yn fwy sych (gyda 190 milimedr o law). Roedd yr haf yn 2019 yn haf gwlyb ar gyfartaledd ac roedd y ddau Hydref yn fwy sych na'r cyfartaledd. Roedd y gaeaf yn 2018 yn weddol sych. Ar y cyfan, cafodd Mark 1767 milimedr o law yn 2018, a 2079.25 yn 2019: dim llawer o wahaniaeth rhwng y ddwy.

Mae Maris Middlehurst wedi parhau i anfon cofnodion glaw gwych o Dreherbert, 'does bosib mai hi yw tref fwyaf gwlyb RhCT. Yn 2019, y cyfanswm bob mis oedd;

Ionawr- 207 milimedr, gyda 41 milimedr ar 19 Ionawr,

Chwefror- 286 milimedr, gyda 68 milimedr ar 8 Chwefror

Mawrth- 487 milimedr, gyda 72 milimedr ar un diwrnod

Ebrill- 153 milimedr, gyda 25 milimedr ar 26 Ebrill

Mai- 87 milimedr, gyda 37 milimedr ar 7 Mai

Mehefin- 191 milimedr, gyda 35 milimedr ar 12 Mehefin

Gorffennaf- 110 milimedr, gyda 35 milimedr ar 19 Gorffennaf

Awst - 461 milimedr, gyda 73 milimedr ar 9 Awst

Medi - 581 milimedr, gyda 102 milimedr ar 28 Medi

Mae mis Chwefror 2020 wedi bod yn wlyb dros ben gyda nifer o stormydd sy wedi achosi llifogydd mewn tai a busnesau yn RhCT. Mae ffigyrau glaw yn dal i gael eu casglu ond fel arwydd, roedd gan fesurydd glaw Paul Marshman dros 6 modfedd o law dros benwythnos ofnadwy 15 a 16 Chwefror. Erbyn 26 Chwefror, roedd y mesurydd wedi cofnodi 16 modfedd yn barod ar gyfer mis Chwefror 2020.

**Adar**

Daeth gwanwyn 2019 â nifer o gofnodion o **ditwod yr helyg** a oedd i'w croesawu. Gwelais i un ym Mharc Gwledig Cwm Dâr ar 26 Ionawr, a gwelodd Richard Morgan ragor (a thystiolaeth o gloddio nythod) ym Mharc Gwledig Cwm Dâr a Pharc Bronwydd, y Porth, lle cafodd dystiolaeth o **ditw’r wern** sydd yr un mor anghyffredin (ac sy'n debyg iawn). Mae niferoedd y rhywogaethau yma wedi gostwng dros y degawdau diweddar ond dylai RhCT, gyda'i choetiroedd a ffeniau gwlyb, fod yn ddelfrydol i'r ddau. Titw’r helyg yw'r unig rhywogaeth *Parus* sy'n cloddio twll nyth. Mae angen bonion llaith wedi'u pydru sy'n ddigon meddal i'w cafnu. Yn hwyr yn y gaeaf, roedd gan David Harry **gudyll bach** benywaidd yn ei ardd yn Llanharan. Lle mae David yn byw, mae cwm afonol cul yn arwain at yr ucheldiroedd uwchben y pentref ac yn y gorffennol, byddai cudyllod bach i'w gweld yn helfa dros y bryniau hynny. Felly mae'n daith gyflym i gudull bach i lawr i'r cwm i fod yng nghalon Llanharan.  Yn y gaeaf yn 2019, byddwn i'n gweld heidiau mawr (60) o **wyddau Canada** yn rheolaidd yn symud i'r gorllewin bob bore dros ffordd osgoi Pentre'r Eglwys. Rhoddodd Lily Woolrich wybod am **farcut coch** dros y Brynna tua diwedd mis Mawrth, a gwelodd ei chydweithwyr bâr yn hedfan dros Lanharan wythnos yn ddiweddarach. Ym mis Chwefror, gwelodd Ben Williams **dylluan glustiog** (sy'n adar gwych i'w gwylio) yn helfa dros laswelltir corslyd Llanilltud Faerdref, lle daeth o hyd i **dylluan wen** a oedd wedi marw.

Roedd telorion penddu yn ôl yng Ngwarchodfa Natur Leol Glyncornel erbyn 29 Mawrth 2019 (Paul Marshman). Erbyn 24 Ebrill, roedd gwenoliaid ar Ystad Ddiwydiannol Hepworth, Pont-y-clun (ac arhoson nhw i fagu nytheidiau mewn unedau storio gwag), gyda **thelorion yr helyg** a **siff-siaffod** yn canu ym Mhont-y-clun. Yng nghanol mis Mai, roedd **clochdarod y cerrig**, **gwyachod bach**, **ehedyddion, llinosod**, a **llwydfronnau** yn Llanilid, Llanharan. Rhoddodd Louisa-Jayne Gillet wybod i mi am **gopog** a oedd i'w gweld mewn gardd yn Aberdâr ym mis

Mai. Dyma aderyn arbennig iawn i lanio ar eich lawnt. Ym mis Gorffennaf, gwelais i 6 o **wenoliaid duon** yn Llanharan ger yr ysgol gynradd. Roedden nhw'n nythu mewn tai cyfagos. Roedd pâr yn nythu ym Mhont-y-clun ac hyd at 10 ohonyn nhw ym Mhontypridd. Dyma boblogaethau gwenoliaid duon pwysig mae angen dod o hyd i ffordd i'w hannog.

Nododd Paul Marshman fod niferoedd **llinosiaid gwyrdd** wedi cynyddu yn ei ardd yn Llwynypïa. Dyma arwydd ffyddiog eu bod nhw'n cynyddu ar ôl y gostyngiad diweddar mewn poblogaeth oherwydd y clefyd. Mae glanhau offer bwydo adar yn rheolaidd yn cael ei awgrymu'n ffordd o atal trichomanes rhag lledaenu sy'n effeithio ar bob math o linosiaid, ond llinosiaid gwyrdd yn bennaf. Ym mis Hydref, roedd gan David Harry dros 30 o **adar y to** yn defnyddio ei ardd. Yn yr haf, gwelodd James Lewis **walch marth** a **bwncathod** yn agos i'w gartref ym Mhentre'r Eglwys.

Ar 9 Medi, nododd Paul Marshman fod **hwyaid danheddog** wedi dychwelyd i Gwm Rhondda. Dyma arwydd o ddiwedd yr haf. Hefyd ym mis Medi wrth Caeau Tirfounder, Cwm-bach, treuliais bum munud hapus yn gwylio **glas y dorlan** yn helfa mewn un o'r merllynnoedd â chynffon y gath. Hedfanodd pâr o **elyrch dof** gan ddefnyddio curiadau adenydd a gwichiodd **rhegen y dŵr** (tebyg i sŵn mochyn) o'r corstir.  Gallwn i wedi bod yn RSPB Minsmere, ond roeddwn i ar hawl dramwy gyhoeddus yng Nghwm Cynon.

Anfonodd Tony Swann uchafbwyntiau ei adroddiad 2019 ardderchog ar gyfer Coedwig Brynna/Cors Llanharan. Rhai uchafbwyntiau gwych, ond rydw i'n credu bod y barcud du yn cyrraedd brig y rhestr. *Ar 23 Ionawr, daeth 10 o ymwelwyr i daith gerdded Ymddiriedolaeth Natur. Gwelon ni 20 o rywogaethau mewn 2 awr a'r uchafbwynt oedd gweld un **llinos bengoch**. Yn gynnar ym mis Chwefror, roedd 2 o **farcutiaid cochion** yn hedfan yn isel dros y gors ac roedd **dringwr bach** ar gainc denau yn hytrach na boncyff tew. 30+ o **gochion dan adain** ar ochr ddwyreiniol y safle gyda nifer o'r adar yn bwydo yn y dail. Diwrnod yn ddiweddarach, hedfanodd 3 o ydfrain heibio. Yng nghanol mis Chwefror wrth i'r tywydd wella, roedd yr holl fronfreithod y gaeaf wedi symud ond cafodd **bras y gors** cyntaf y gaeaf ei weld yn agos i'r rheilffordd. Ar 16 Chwefror, hedfanodd un **ŵyrdd wyllt** i'r gorllewin dros y goedwig yn hwyr yn y prynhawn. Ar 5 Mawrth, gweld **gwennol y glennydd** yn hedfan heibio oedd yr uchafbwynt. Roedd rhywogaethau preswyl yn paratoi ar gyfer y gwanwyn gyda nifer o rywogaethau yn canu ac roedd nifer o adar wedi'u paru i'w gweld. Ar y 7fed, hedfanodd 2 o **wyddau Canada** heibio'n clegar ac erbyn yr 20fed, roedd **siff-siaff** cyntaf y gwanwyn wedi canu, ac ar y 31ain, roedd 4 gwryw yn canu a chafodd y **telor penddu** gwrywaidd ei gofnodi.*

*Erbyn mis Ebrill, roedd nifer o'r telorion penddu ac roedden nhw ar gân gan achosi her i'r siff-siaffod. Nodi **telor yr helyg** cyntaf y flwyddyn. Ar 10 Ebrill, cafodd 28 o rywogaethau eu cofnodi gyda nifer o'r rhywogaethau preswyl ar gân. Yr uchafbwyntiau oedd pâr o **linosod,** sy'n anghyffredin iawn o ran y safle yma. Roedd hebog tramor ac 1 **telor yr ardd** yn yr un goed grablyd â 3 **thelor penddu** gwrywaidd a oedd ar gân. Erbyn y 18fed, roedd y tywydd yn fwy twym ac roedd yr*

*adar ar gân. Roedd pâr o* ***weilch marth*** *yn hedfan gyda'i gilydd.* ***Roedd cnocellau brith mwyaf a chnocellau gwyrddion*** *i'w clywed ond nid i'w gweld. Ar 23 Ebrill wrth siopa yn y pentref, sylwais i ar aderyn ysglyfaethus mawr yn hedfan o orllewin i ddwyrain y goedwig ac eto uwchben y pentref. Fy ymateb cyntaf oedd barcut coch ond wrth iddo agosáu, roedd yn fwy tywyll a doedd ei gynffon ddim yn symud llawer.* ***Barcud du*** *a fi hen finiau na chamera! Ar 4 Mai, hedfanodd* ***gwennol y bondo*** *cyntaf y flwyddyn i'r gorllewin ac erbyn y 7fed, roedd 3* ***gwennol ddu gyffredin*** *i'w gweld yn edrych am safleoedd nythu mewn tai cyfagos ac ar y 14eg, gwelwyd* ***gwennol*** *cyntaf y flwyddyn. Rhaid mai'r ymfudwr â'r nifer uchaf eleni yw'r telor penddu. Maen nhw ymhobman gan ragori ar niferoedd* ***mwyeilch*** *preswyl. Mae amrywiaeth yn is o'i chymharu â chofnodion blynyddol fis Mai y flwyddyn flaenorol.*

*Ar 23 Mai, cafwyd 3 awr a hanner dda iawn a arweiniodd at 30 o rywogaethau. Y nifer uchaf y flwyddyn yma. Yr aderyn da cyntaf oedd* ***llwydfron fach*** *ac yna* ***tingoch cyffredin****, ger Ysgol Brynna. Cofnod cyntaf y safle yma i fi – maen nhw'n magu'n lleol ond dydw i erioed wedi mwynhau un yng Nghoedwig Brynna. Am 17:00 ar 1 Mehefin, roedd* ***cog*** *gwrywaidd yn galw ac roedd i'w weld o'r parc ar ochr ogledd-ddwyreiniol y safle ac erbyn y 6ed, roedd nifer o grwpiau teulu, yn enwedig* ***titwod cynffon-hir*** *a* ***thitwod mawrion*** *sy'n arwydd o flwyddyn fagu dda. Wrth fy modd i weld a chlywed* ***llwydfron cyffredin*** *yn canu a hedfan o lwyn mawr mewn cae gwartheg.*

*Erbyn 27 Gorffennaf, roedd niferoedd rhywogaethau yn isel iawn wrth i adar fwrw plu ond erbyn 20 Awst, gwelwyd y cyntaf o'r praidd titwod ar ôl magu, yn ogystal â thelor yr helyg melyn llachar. Ar 19 Hydref, roedd gweld 16 o* ***gochion dan adain*** *yn hedfan heibio yn gynnar yn y prynhawn yn braf. Ar 24 Tachwedd, gwelwyd 2 socan eira (sef y tro cyntaf i mi weld y rhywogaeth yn 2019). Ar 28 Tachwedd, hedfanodd 6 o* ***elyrch dof*** *o'r dwyrain i'r gorllewin. Dyma oedd y tro cyntaf i fi eu gweld nhw y flwyddyn yma a'r ail dro i fi eu gweld yng Nghoedwig Brynna ers 20 o flynyddoedd. 1 Rhagfyr – bore heulog braf ac adlewyrchodd y tywydd gwell nifer y rhywogaethau lle gwelwyd 25 a grŵp o* ***gigfrain*** *yn hedfan i'r de tuag at Lanilid. Er mawr syndod, gwelwyd* ***glöyn brwmstan*** *yn yr haul ger y rheilffordd. Ar ddiwedd 30 Rhagfyr 2019, gwelwyd 61 o wahanol rywogaethau.*

Ym mis Ionawr 2020, e-bostiodd Tony Swann i roi gwybod bod **trochydd mawr** wedi ymddangos ym Mhwll yr Esgob, Mwyndy: y trochydd mawr yw trochydd enwog Canada! Gwelodd Jeff Williams 12 **gylfingroes** yn y goedwig uwchben Hirwaun ym mis Ionawr 2020.

**Mamaliaid**

Rhoddodd David Harry wybod am ddau **ystlum pedol lleiaf** a oedd wedi gaeafgysgu yng nghwt coed ei ardd yn Llanharan yn y gaeaf 2019. Ym mis Hydref, roedd dau ystlum yn dal i ddefnyddio'r adeilad. Gwelodd Mark Powell **ysgyfarnog** ar Ystad Ddiwydiannol Hirwaun ym mis Ionawr 2019, y diweddaraf o nifer o gofnodion

am ysgyfarnog yn ardal Hirwaun. Dyma famal anghyffredin yn RhCT, ac mae'n debyg bod Hirwaun yn ardal bwysig.

Hefyd ym mis Ionawr 2019, gwelwyd **dyfrgwn** sawl gwaith ar Afon y Rhondda rhwng Ffordd Osgoi Trehafod a Phontypridd. Cafodd llawer o bobl gyfle i weld dyfrgwn a oedd yn wych, ond roeddwn i'n genfigennus. Er gwaethaf blynyddoedd o edrych i mewn i afonydd rydw i'n eu croesi neu'n cerdded wrth eu hymyl, dydw i erioed wedi gweld dyfrgi!!! Trwy gyd-ddigwyddiad ym mis Ionawr 2019, e-bostiodd Siraj Vaghari ac Oliver Jefferies o adran Priffyrdd RhCT i ddweud eu bod nhw wedi gweld 3 dyfrgi yn Afon Elái o dan y bont rhwng Pont-y-clun a Brynsadler. Yn ôl Siraj, '*when I first noticed the otters, I called the boys over to look, but of course by the time they popped over, the otters were gone, but when under the bridge , one popped up next to us, and swam away'.*

Mae newyddion am boblogaeth **llygod pengron y dŵr** oedd i'w gweld trwy ddefnyddio gors fawn a tir y goedwigaeth uwchben cymoedd y Rhondda a Chynon yn dod yn fwyfwy cyffrous. Mae gwiriadau pellach yn awgrymu bod y nythfeydd yn ymestyn dros ardal sylweddol o ucheldir yn RhCT. Mae'n debyg eu bod nhw'n fetaboblogaeth enfawr gydag anifeiliaid yn byw ar draws tirwedd ucheldir gysylltiedig enfawr, a hynny'n llai niferus. Mae'n ddarganfyddiad cenedlaethol sylweddol i rywogaeth sydd wedi diflannu o bob un o'n hafonydd iseldir.

Ar ôl y cofnod cyntaf o **iwrch** i RCT yn 2018, gwelodd David Hampton **garw mwntjac** ym mis Gorffennaf 2019 wrth gerdded gyda'i ŵyr yng Nghoed Trecasell (Tyla-garw). Dyma'r hyn y dywedodd David, '*deer crossed the path, looked at us and ran back into the undergrowth. I've never seen any deer in RCT previously'*. Yna ym mis Ionawr 2020, rhoddodd Jeff Williams wybod am **garw coch** yn bwyta gwair gyda defaid ar gaeau wrth ochr Ffordd Mynydd y Rhigos, Hirwaun. Rydw i'n credu bydd ceirw yn dod yn fwyfwy cyffredin i'w gweld yn RhCT.

### Glöynnod Byw a Gwyfynod

Ym mis Mai a Mehefin 2019, cafodd **gwibiwr llwyd** ei gofnodi o Lanilid (Llanharan) ac yng Nghwm Rhondda (Pen-rhys). Rhoddodd Paul Marshman wybod am wibiwr llwyd a welwyd yn Llwynypïa. Dyma löyn byw sydd wedi cytrefu yn y cymoedd dros y blynyddoedd diweddar. Mae'n hoff iawn o dir llwyd a glaswelltiroedd tomennydd glo, gyda mawn agored, llawer o bys ceirw'r mynydd, a (pan fo'r haul yn gwenu) ficrohinsawdd dwym. Mae'n llwyddiant i löyn byw y mae ei niferoedd yn gollwng yn genedlaethol. Gwelodd Ben Williams larfâu **britheg y gors** yn yr haul ym mis Chwefror yng Ngors Llanilltud Faerdref. Yn gynnar ym mis Mehefin, gwelwyd glöynnod byw er nad oedd y nifer wedi cynyddu fel roedden ni wedi eisiau. Serch hynny, cafodd Carys Romney a Paul Denning y newyddion cyffrous o weld tri yn y glaswelltir gorslyd yng Ngwaunmeisgyn, Y Beddau (safle newydd i'r glöyn byw), lle gwelodd Paul **frithribin wen hefyd.** Gwelwyd britheg y gors yng Nghwm Rhondda Fawr, sy'n bell iawn o'r nythfa agosaf. Yn Hirwaun, cafodd brithegion y gors dymor hedfan da yn 2019 ac ymddangoson nhw ar ragor o safleoedd newydd!! Gan ddefnyddio'r un rhostiroedd pori â brithegion y gors, roedd 2019 yn flwyddyn lwyddiannus i **weilchwyfynod gwenynog ymyl gul**. Mae Richard Smith, Ben Williams a Paul Denning wedi siarad â fi amdanyn nhw. Gwelwyd y rhan fwyaf

ohonyn nhw yn y Bannau Brycheiniog, ond gwelwyd ambell un yn Hirwaun. Maen nhw'n wyfynod oriau dydd ysblennydd sy'n dynwared gwenyn, ac maen nhw'n brin iawn. Daeth Ben Williams o hyd i glystyrau pellach o frithribinod gwynion trwy ddefnyddio llwyfenni yn Ffynnon Taf a Chilfynydd. Gan fynd yn ôl at frithegion y gors, mae Ysgol y Pant yn tyfu hadau clafrllys gwreidd-dan i'w plannu mewn ardaloedd o laswelltir gorslyd llawn blodau gwyllt sy'n cael eu rheoli'n gynefinoedd rhostiroedd pori ar safle'r ysgol. Unwaith eto, gwnaeth elusen Butterfly Conservation a Trefi Taclus (Tidy Towns) waith gwych yn torri prysg ar gynefinoedd brithegion y gors yn RhCT a helpodd Cyfoeth Naturiol Cymru i glirio helyg crablyd o ors Llanilltud Faerdref. Yn ystod yr hydref/gaeaf yn 2019/20, mae Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt (Wildlife Trust) wedi cynnal gwaith rheoli hanfodol pellach mewn safleoedd glöynnod byw allweddol ym Mharc Eirin a Chwarel Llanhari. Gwnaeth hefyd waith rheoli yng Ngors y Pant, Pont-y-clun, ar y cyd â myfyrwyr Coleg Pencoed.

Ar 27 Mehefin, wrth chwilio am ardaloedd o flodau gwyllt i'w rheoli ym Mharc Blaenrhondda, des i a Hwyel Bebb o hyd i ardal wych o laswelltir llawn twmpathau morgrug gyda llawer o **damaid y cythraul**, **llysyrlys**, a **chrinllys y gors**, a nythfa (o leiaf 6) o **goedwyr**. Fel mae'n digwydd, dyma nythfa brin iawn o'r gwyfynod oriau dydd hardd yma ac o bosibl, yr ail nythfa mewn bodolaeth ym Morgannwg gyfan. Rydyn ni eisiau gweld a oes modd rheoli'r ardal yma trwy dorri'r gwair yn hwyr yn yr haf ac o bosibl, gofyn am help i racanu'r glaswellt wedi'i dorri (gweler sesiynau rhacanu ‘grab a rake’). Yn hwyrach y bore hwnnw, es i am dro i'r Rhondda Fach ar safle Hen Lofa Fernhill. Roedd hi'n heulog ac yn wyntog, ond roedd cysgod ar lan yr afon. Ymhlith y **grug**, **tamaid y cythraul** a **fioledau**, roeddwn i wrth fy modd i weld 20 **britheg berlog fach,** tua'r un nifer o **frithion gwyrdd,** a nifer o **rostiroedd**, **gwibiwr mawr**, **gleision cyffredin**, **llwydion y ddôl** a **glöyn yr ysgall**.

Ym mis Gorffennaf, gwelodd Richard Smith löyn yr ysgall yn Nhonyrefail, dyma arwydd o ddylifiad o'r glöyn byw mwyaf ymfudol yma yn ystod yr haf. Serch hynny, rhoddodd Margaret Harding wybod am flwyddyn wan o ran glöynnod byw o'i gardd yn y Beddau, gydag ambell i **iâr wen fawr**, **llwyd y ddôl**, **brith y coed**, un **glöyn trilliw bach**, ond ar 3 Awst gwelwyd **glöynnod yr ysgall**, ac ambell i **fantell goch** ac **iâr fach lygadog**. Roeddwn i'n lwcus i weld **gwalchwyfyn hofran** (mudwr arall) yn fy ngardd yn bwyta o driaglog goch. Yn gynnar ym mis Gorffennaf wrth ymweld â Mynwent Cefn Parc, Llantrisant, roedd gormod o **fwrnedau chwe smotyn** i'w cyfrif (tua 400 ohonyn nhw) yn suo o gwmpas glaswelltir y mynwent llawn blodau gwyllt. Roedd hi'n anhygoel.

Yn rhan o ymweliad Grŵp Ffwng Morgannwg â **Mynwent Aberffrwd**, casglodd Rob a Linda Nottage restr fawr gan gynnwys rhywogaethau o'r **tarianbryf** (**tafol, blewog, gwyrdd, pigog, efydd** ac ar lysyrlys **tarianbryf crwbanog cyffredin (common tortoise shield bug)**), 4 rhywogaeth chwyddi, 2 rywogaeth ceiliog rhedyn a 9 glöyn byw.

Anfonodd Mark Evans y canlynol ym mis Ionawr 2020. Ddydd Mercher diwethaf, cyfrifais i a Mike Hogan y **gwyfynod herodr** yn nhwnnel Cefnglas. Fel y gwelwch chi o'r daenlen wedi'i hatodi, roedd tri yn llai na'r flwyddyn ddiwethaf (gwelwyd 32), ond roedd gyda ni fonws o weld **iâr fach lygadog** ac **ystlum hirglust**. Yr iâr fach

lygadog oedd yr ail löyn byw gaeafgysgu rydyn ni erioed wedi dod o hyd iddo yn nhwneli'r rheilffordd. Mae'n debyg bod nifer ohonon nhw yn defnyddio'r twneli bob blwyddyn ond, yn annhebyg i'r gwyfynod herodr sy'n ddigon llachar i'w gweld gyda thortsh, mae'n anodd gweld yr ieir bach llygadog a glöynnod trilliw bach yn erbyn y gwaith brics llawn huddygl, hyd yn oed ar do'r twnnel. Daeth George Tordoff o hyd i duedd ar gyfer y gwyfynod herodr yn y ddau dwnnel ac er bod amrywiaeth o flwyddyn i flwyddyn, dydy'r duedd poblogaeth wirioneddol ddim wedi cynyddu.

**Anifeiliaid Di-asgwrn-cefn eraill**

Yn ôl Richard Morgan, gwelodd **gardwenyn wlanog** yn y Porth a gwelais un yn Nhrefforest, mae'r wenynen arbennig a mawr yma (yn achos gwrywod) yn un braf i chwilio amdani. I'w gweld yn eich gardd, rhowch gynnig ar dyfu clust yr oen – mae'r benywod yn casglu'r blew o'r dail ar gyfer eu nythod (cardwenynen) ac mae'r gwrywod yn llercian o gwmpas y planhigyn yn aros i'r benywod gyrraedd. Yn hwyr ym mis Mehefin, roedd nifer o **bicellwyr praff** yn helfa llawer o bicellwyr praff eraill ar byllau yn Hen Lofa Fernhill ym Mlaenrhondda.

Gwelodd Liam Olds **chwilod olew borffor** ar laswelltir blodau gwyllt ym Mharc Gwledig Cwm Clydach yn y Rhondda. Rhoddodd Mark Steer wybod amdanyn nhw eto o Goedwig Brynna, Llanharan, a gwelais i un yn cerdded ar draws fy lawnt ym Meisgyn, Pont-y-clun. Mae'r chwilod yma sy'n brin yn genedlaethol yn arfilod yn nythod gwenyn durio. Mae'r chwilod i'w gweld pan fo llawer o wenyn durio, ac mae'r gwenyn i'w gweld pan fo llawer o laswelltir llawn blodau gwyllt. Mae rheswm pam maen nhw i'w gweld yn RhCT, nid mewn llawer o lefydd eraill. Gwelodd Liam gyfres o wenyn prin yng Nghwm Clydach ac yn ei farn,: '*[this] must be one of the best spots for bees in the Rhondda!!*'. Y flwyddyn yma oedd y flwyddyn orau ar gyfer y **wenynen gorniog** brin yn fy ngardd. Rydw i wedi annog ardal fawr o **ytbys melyn** i'w tyfu yn fy lawnt ac yn hwyr ym mis Mehefin/cynnar ym mis Gorffennaf, roedd o leiaf dwy fenyw yn chwilota ar yr ytbys. Roedd dau neu dri o wrywod â theimlyddion hir yn suo o gwmpas y lawnt, yn chwilio am fenywod heb baru. Yn achlysurol, byddai'r benywod chwilota yn diflannu i hedfan i'w nythod ar lan cyfagos a chyflenwi celloedd wy â phaill.

**Ymlusgiaid ac Amffibiaid**

Daeth Karen ac Andy Wilkinson o hyd i **wiber hibernacula** ar Gomin Llantrisant yn hwyr ym mis Chwefror 2019, gyda 2 wiber a **neidr lwyd**. Dyma gofnod gwych.

Yn 2019, roedd **brogaod** yn silio yn y pwll yn fy ngardd ar 7 Chwefror, gydag ail dwf ar y 15fed. Mae hi'n ymddangos bod siliad brogaod yn gynnar eleni. Rydw i'n meddwl bod Carys Romney wedi ennill y wobr ar gyfer y siliad brogaod cynharaf yn 2020. Ar 26 Ionawr 2020, dechreuon nhw silio yn fy mwll ac erbyn yr 28ain, roedd 5 clwstwr o siliad. Rydw i'n tybio bod hyn yn cyfateb i 5 benyw? Bob tro edrychais i, roedd clwstwr o 6 neu 7 gwryw gobeithiol yn y pwll, yn aros i fenywod gyrraedd. Fel yn 2019, roedd ail dwf o siliad brogaod yng nghanol mis Chwefror. Yn 2020, cafodd yr holl silio ei gynnal yn y tywydd mwyn ond bob amser yn ystod glaw trwm neu ar ei ôl. Gwelodd Paul Marshman lawer o siliad yn y pyllau yng Ngwarchodfa Natur Leol Glyncornel yn hwyr ym mis Ionawr/canol mis Chwefror.

## Ffyngau

Yn nhymor yr hydref (ac o ganlyniad i waith da Emma Williams, Mark Steer a Mark Evans yn dod o hyd i ffyngau prin a gwych ar safleoedd hen lofeydd), aeth Cymdeithas Mycoleg Prydain i Domenni'r Maerdy a chofnodwyd 83 o rywogaethau. Yn ôl y sôn, roedden nhw wrth eu boddau. Daeth Emma Williams o hyd i safle cap cwyr ardderchog arall ym Mynwent Pen-rhys, ac yn 2020 rydyn ni'n gobeithio gweld sut bydd modd i ni reoli'r ardal ar gyfer y cap cwyr yn well. Anfonodd Mark Steer restr o 10 o rywogaethau, ffwng y gawod a'r gafod lwyd yn bennaf, a welwyd wrth iddo fynd i Fynwent Aberffrwyd ym mis Medi 2019.

## Planhigion

Ar 1 Ionawr 2019, cofnododd Paul Marshman y goesgocheb, drain duon, llaethysgallen arw, milddail, llygad-llo mawreg ac erbyn y 12fed, eglyn cyferbynddaileg a cheirios. Mae hyd diwrnodau yn un o'r ffactorau sy'n sbarduno blodeuo a gall gaeafau mwyn heb rew dwyllo planhigion i feddwl bod y gwanwyn wedi cyrraedd yn gynnar. Rydyn ni i gyd yn gyfarwydd ag eithin, ond mae dau rywogaeth o eithin yn RhCT: **eithin cyffredin*Ulex europeaus*** ac **eithin mân*Ulex galli.*** Mae'r ail un yn ddangosydd rhostir (rhywogaeth defnyddiol iawn), ac yn un o'r 'oceanic west'. Y ffordd hawsaf i wahaniaethu rhyngddyn nhw yw eu hamseroedd blodeuo gwahanol (*europeaus* yn y gaeaf hyd at adeg gynnar yn yr haf, a *galli* yn hwyr yn yr haf a'r hydref). Serch hynny, ym mis Hydref 2019, gwelodd Paul nhw'n blodeuo gyda'i gilydd ar fryniau yn ardal Pen-rhys. Fel botanegwr diog, roedd hynny'n ddarganfyddiad nad oed croeso iddo gan y bydd angen i fi ganolbwyntio ar faint blodeulenni'r blodau, sy'n golygu bod rhaid imi gofio mynd â'm sbectol!!

Gwelodd Paul Denning **lwyni cwrens gwyllt** a **thriaglog y gors** yn y coetiroedd gwlyb yng Ngwaun Meisgyn, Y Beddau. Des i o hyd i ragor o safleoedd **deintlys** yn Nhyla-garw, y ddau'n parasitio hen gyffion prysgoedio cyll. Ym Mhontypridd, roedd 580 o **ddail pen neidr** brodoredig yn y parthau gwyllt gwlyb llawn blodau gwyllt ym Mharc Pontypridd. Ym mis Mai, roedd 5 **tegeirian porffor y gwanwyn** yn Chwarel Llanhari, yn ogystal â dros 40 o **gaineirianau**, roedd **tegeirian porffor y gwanwyn** ar yr ymyl ym Meisgyn. Serch hynny, cyrhaedodd **tegeiriau'r waun**, yn y doldiroedd gwair ym Mynwent Cefn Parc, 7 twf blodeuo yn unig yn 2019. Rhoddodd Sue Thomas wybod am **degeirianau'r wenyneneg** ar ymylon blodau gwyllt ym Meisgyn, Pont-y-clun, lle roedd hyd at 30 yn blodeuo yn gynnar ym mis Gorffennaf. Gwelodd Carys Romney a Paul Denning o leiaf cant yng Nglofa Cwm, Y Beddau!! Ym mis Mai, cofnodd Paul **fandon las yr ŷd** a **phig-yr-aran larpiog** ar lannau'r afon yn Llwynypïa. Daeth Mark Evans o hyd i fandon las yr ŷd ar ymyl maes parcio yn y Beddau.

Daeth James Lewis o hyd i gynefin rhostiroedd pori gwych yn y caeau ger ei gartref ym Mhentre'r Egwlys Uchaf, anfonodd luniau (a disgrifiadau) o rostir clasurol, gyda mosaig o laswelltir gorslyd a sychach, gyda **thamaid y cythraul**, **melog y cŵn**, **tegeirianau'r gors, tegeirianau brith y rhos a thegeirianau brych**, **meillionen hopysaidd**, **blodau'r brain** a **chribellau melyn**.

Yn rhan o ymweliad yn ystod yr hydref gan Grŵp Ffyngau Morgannwg â Mynwent Aberfffrwyd, Aberpennar, casglodd Sue Wistow restr o 92 o rywogaethau planhigion gan gynnwys **llysyrlys** arbenigol Cwm Cynon, y tegeirian gwyllt **y galdrist lydanddail** a'r **gwreiddiriogeg** sy'n blanhigyn calchgar (calcicole).

Sylwodd Jeff Williams fod **bachgen llwm** wedi dechrau tyfu mewn nifer o lefydd yng Nghwm Rhondda. Mae'r tymhorau wedi'u cymysgu wedi achosi i **ddant y llew** flodeuo yng ngardd Jeff yn gynnar ym mis Rhagfyr 2019.

**Cigfrain**

Anfonodd Mark Evans y canlynol – mae'n llawn gwybodaeth a hanesion felly roedd rhaid ei gynnwys yn llawn. Mae'n grynodeb o'r profiad o fonitro clwyd cigfrain bob mis sy ar ben mynydd wedi'i goedwigo rhwng cymoedd Cynon a Thaf-elái. Yn 2019, y nifer uchaf o adar a gafodd eu cofnodi oedd 295 ym mis Awst (gyda chyfartaledd misol o 147 o adar yn 2019). Y record ar gyfer y nifer o adar mewn mis oedd 577 ym mis Gorffennaf 2016. Mae'n stori am glwyd cigfrain enfawr mewn coedwigaeth, ar fynydd a'r daith gerdded i fyny'r mynydd yn oriau mân y bore ym mhob math o dywydd.

'*The Raven count I made at the beginning of December 2019, marks a significant personal milestone, as it was the 250th solo count of the Ravens, since I first discovered the presence of the roost, in 2000. Having then been excluded from it for most of 2001, I began monitoring it in earnest in 2002. To mark the occasion, here are some rambling reminiscences, related to the counts, but not really about the Ravens themselves.*

*I described them as solo counts, for on four occasions I was accompanied by my friend and avid monitor of breeding and passage birds at Rhaslas Pond, Mike Hogan. It was with the help of Mike that I confirmed my suspicion that at times, a significant number (up to 20%) of the roost's population were leaving the roost to the east, completely unseen and uncounted by me. On one occasion, when I was away, Mike also completed a solo count for me and although this count and the ones made jointly with him are included in the ever growing set of data for the roost, it is the personal tally of solo counts that I am marking here. Thank you Mike, for your invaluable help and good company on those counts we did together. I'll always be grateful: such a pity you never saw the hoped for **woodcocks**.*

*As with many projects or undertakings such as this, it didn't start out as one. When I first noticed a large group of Ravens suddenly fly out of a plantation, one morning, I was instantly curious, so returned in the evening to see if there was a roost there. I watched the birds return, but their playful aerobatics and general toing and froing, while entertaining, made counting them impossible, so a few days later, I made my first dawn visit and found that a very important number were using the roost. I decided to count them every fortnight for a year, to see if there was a pattern to the roost's population. Foot and Mouth outbreak closed the forestry for over half a year, so I had to delay the start of the monitoring year. In 2002, I counted them each fortnight, as planned and when the year ended, I found myself wondering whether there would be an appreciable difference in the population in 2003, so I just carried on with the fortnightly counts right through 2003 and 2004. I had become addicted by*

*this point; not just to the need to see what the Raven population would do next, but by the whole slightly surreal and definitely magical experience of being out in the pre-dawn darkness and the dawn itself.*

*If it hadn't been for sitting up there at dawn, I would never have realised that the dawn chorus begins down in the valley and then over a few minutes gradually rolls up the slope to the hill top. I've heard it do that enough times to be sure that it is a genuine phenomenon. When I began the counts, I could not drive, so had to walk the three and a half miles from my house, in the darkness, over the hill tops to the roost and then back again in daylight, after the count was over. In winter, although not particularly early in the morning, it often meant a long trudge through mud, snow and ice in the darkness, while in the summer, it meant getting up at 02:00, in order to get to the roost before the pre-dawn twilight began.Over the years, to preserve my dark adaptation, those yomps, in the early hours were made as mostly without any artificial light and produced some interesting highlights, such as meteor showers, displays of noctilucent cloud and the Aurora Borealis. I recall one winter's morning, almost stepping on a* ***jack snipe****, which bobbed up and down alongside my foot for a couple of seconds, before flying off a to a another spot a couple of metres away. Perhaps the strangest incident occurred as I was walking over to meet up with Mike, for a joint count. It was Sunday the 5th of December 2005 and as I walked across an open area of hill top between conifer plantations, I suddenly heard a strange rumbling boom, which came from the south east. It was obviously the sound of an explosion, or several, but it was about twenty past six in the morning, so couldn't have been blasting in a quarry and the sound came from the wrong direction for it to have been artillery fire, on the Senni ranges*. The mystery was solved when I got *home, after the count and the TV news was reporting the huge explosion at the Buncefield fuel depot, in Hertfordshire; 128 miles away, as the crow flies.*

*One notable morning, in a very wet August, I had arrived at the spot, from which I would count the ravens and as I began setting up my chair, I noticed my footprints glowing pale blue, in the pre-dawn darkness. Looking closer, I could see that within each footprint, in the short, wet turf, even in the ones which within shallow puddles, there were many tiny specks of intense blue light; like miniature LEDs. Some were even on the toes of my wellies. I had no idea what was causing this bioluminescence and as I didn't have reading glasses with me, my attempted close inspection proved fruitless. I did collect as specimen of vegetation with a couple of glowing specks, but when I examined them at home, nothing could be found to account for the phenomenon. I was later in contact with Roy Perry, who suggested that it may have been caused by nematodes.*

*Of the winter counts, one of the more uncomfortable, but beautiful occasions was in early February 2012. There had been a heavy fall of snow, followed by a prolonged severe freeze and as there was no hope of getting my car out of the street, I walked to the roost, through knee deep snow, on top of which was a thin frozen crust. As I trudged through it, each step was accompanied by lots of tinkling; like bridle bells. The prolonged freeze had caused masses of beautiful blade-like hexagonal ice crystals, up to 10-15mm across to form over the surface of the snow, each standing on edge. As I walked, I sent them scattering in all directions, tinkling as they went. The count that followed was less magical, as it involved sitting still for 90 minutes in temperatures around -14 C!*

*As for the counting itself, I have had, over the years, had to move my counting spot three times, in response to the evolving nature of the roost; changes which altered the flight paths from the roost. Due to the often very poor light when they first begin flying out, I have to find a counting spot, from where I can see all of them against a background of sky, for in that early pre-dawn twilight, they are invisible against a background of the land.*

*Until fairly recently, the counting spots have been close to the roost, which really connected me to the birds. It was a magical experience, sitting in the darkness, watching the first glimmerings of twilight begin to appear in the sky and then hear the first calls from the senior pair in the roost. Ravens have individual and often recognisable voices, so it was obvious that it was the same pair each time, which would begin the calling and then be joined after a minute or two, by the rest of the roost in a chorus, which typically lasted ten minutes and at the end of which, the first groups would fly out. The senior pair would continue calling throughout the time it took for the roost to empty (typically one hour) and then would be the last to leave. Sometimes they remained in the roost, with no intention of leaving.*

*In that former counting place, the winter counts would be further enlivened by a trickle of* ***woodcock*** *flying in from wherever they had been feeding, overnight, to roost in the forest plantation behind where I sat. There were never large numbers, but it was entertaining to try spotting them coming in, fast and low, while the ravens were flying out and thrilling when they occasionally flew past so close that the wind in their feathers could be heard. Once during a summer count a female* ***nightjar*** *passed so close in front of me, that in the still air I could smell its feathers.*

*Over the years; particularly the ones when I used to walk to the roost, I had a few hair-raising moments. I don't believe in the supernatural, but that does not prevent ancestral instinctive reactions kicking in, when confronted by a sudden and unexplained sight or sound. Trudging down a dark forest ride, one winter morning, I suddenly heard a loud, hoarse cry repeated over and over and coming up fast from behind. I quickly realised that it was a freaked out woodcock flying up the ride and over my head, but not before the fight or flight instinct had kicked in and although and although 21st century man knew it was just a frightened bird, my ancestral instincts insisted on raising the hair on my neck, quickening the heart rate and pricking sweat on my forehead.*

*Along the same ride, on a different morning, at a place where the ride opened up onto a clear-fell area; the paler gap between black conifers suddenly sprouted a small forest of horns. I switched on my torch, to reveal a herd of cattle completely filling the ride. Luckily, they moved aside to let me pass through. The weirdest apparition occurred one dark winter morning. I was walking the ride through a clear-felled area, near the roost, when on the slope above the ride I noticed something white. As the ride took me closer, I was a little perturbed to see that it seemed to be a figure, with longish, pear shaped body, a head and two legs, but no arms, standing motionless. Ancestral man had taken over by this point and although I knew there was a rational and possibly laughable explanation for the figure, that didn't prevent the inevitable raised hair, sweat and pounding heart. I kept walking and watching it as I drew level with it and closer to it and suddenly it sprouted two more legs and a*

*pair of pointy ears. It was a white horse and had been standing facing me square-on, its white coat illuminated by the street light glow from Merthyr.*

*How long will I be able to continue counting the Ravens? Well, things are changing and I can foresee and end to the roost. The first potential reason for the end to my counting will come fairly soon, when the NRW Forestry fell the plantation it is currently in. That won't be the end to the roost, which will almost certainly move to another plantation nearby. Whether I will be able to count them leaving the new roost site remains to be seen. The other reason and the one that may cause the roost to eventually decline (it is already declining) and fizzle out is that the roost is where it is because of the nearby refuse tip and almost no food waste is now finding its way onto that tip. As RCT encourages more food waste recycling and the domestic refuse is no longer taken to the tip, the core, non-breeding population of the roost will find it far less attractive and the roost may eventually disperse. Whatever happens, I am not getting any younger, so it is extremely unlikely that I will ever reach my 500$^{th}$ count'.*

Diolch yn fawr! Parhewch i anfon eich cofnodion ar gyfer yr un nesaf.

Richard Wistow
Cyngor Rhondda Cynon Taf, Uned 7c, Ystad Ddiwydiannol Hepworth, Lôn Coedcae, Pont-y-clun, CF72 9DX
**CylchlythyryCofnodwyr@rhondda-cynon-taf.gov.uk**

Mae polisi preifatrwydd y Cyngor ar gael ar y wefan www.rctcbc.gov.uk/EichHawliauGwybodaeth. Byddwn ni ond yn cadw manylion eich enw a chyfeiriad / cyfeiriad e-bost at ddibenion anfon Cylchlythyr y Cofnodwyr atoch chi. Os hoffech chi dynnu eich manylion cyswllt o'r rhestr ddosbarthu, e-bostiwch Parciaucefngwlad@rhondda-cynon-taf.gov.uk unrhyw bryd.

Mae croeso i chi gyfathrebu â ni yn y Gymraeg / You are welcome to communicate with us in Welsh.